Oedolion, Iechyd a Llesiant
Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

# Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal

## Safle Ysbyty Alltwen, Eifionydd

Bwletin Staff
22/10/2015

## 1. Cyflwyniad

Pwrpas y bwletin hwn ydy eich diweddaru am gynllun Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal.

Yn y grwpiau ffocws diweddar gyda staff, daeth yn amlwg nad oedd staff yn llawn ymwybodol o ddatblygiadau'r cynllun hwn a'u bod yn awyddus i ddysgu mwy amdano.

Bwletin cychwynnol ydy hwn sydd yn cynnwys y wybodaeth mae staff wedi bod yn holi amdano, ac mae fideo byr hefyd yn cael ei ddatblygu. Bydd rhagor o wybodaeth i ddilyn dros y misoedd nesaf wrth i'r cynllun ddatblygu. Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth o gymorth i hybu eich dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am y cynllun cyffroes hwn.

Mae yno hefyd weithdai staff yn cael eu cynnal ym mis Hydref a mis Tachwedd; mae dyddiadau'r gweithdai wedi eu nodi ar ddiwedd y bwletin hwn ac anogaf chi i'w mynychu.

## 2. Nod a phwrpas y cynllun

Mae egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' yn anelu i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Dyma mae ein gweithwyr yn ceisio ei wneud bob dydd, gall systemau a phrosesau gwaith rwystro hyn ar adegau. **Nod Cynllun Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal ydy symleiddio prosesau gwaith ac osgoi rhwystrau gan arwain at wasanaeth gwell i'r unigolyn.**

Yn ystod Hydref 2014 treuliodd dîm o staff wasanaethau cymdeithasol ac iechyd (rheolwyr ac ymarferwyr) 6 diwrnod gyda Chwmni Ymgynghorol Vanguard yn gwneud gwaith cychwynnol er mwyn canfod:

- beth sydd yn bwysig i ddefnyddwyr
- sut mae'r system bresennol yn gweithio a beth sydd wedi arwain at weithio yn y ffordd hon.

**Cafodd hyn ei wneud drwy:**

- cyfweld a defnyddwyr
- adolygu ffeiliau achosion
- dadansoddi llif gwaith.

**Roedd y negeseuon allweddol o'r gwaith cychwynnol hwn yn cynnwys:**

1. Tueddiad i weld opsiynau Gwasanaethau Cymdeithasol/Iechyd fel yr unig ddatrysiad.
2. Ffitio'r unigolyn i'r Gwasanaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar beth sydd yn bwysig iddyn nhw.
3. Tueddiad i ddatrys achosion/problemau unigol, nad ydynt o reidrwydd yn cyfarch gwraidd y broblem.
4. Rhai esiamplau gwan o weithio traws-asiantaeth.
5. Gormod o asesiadau ac ail asesiadau.
6. Dim sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd adolygiadau.
7. Ymdeimlad fod rhywun yn cyflawni cynnydd yn yr achos wrth lenwi ffurflen.
8. Gwthio pobl trwy drefn 'llinell gynhyrchu'.
9. Mae gweithdrefnau yn cael eu gwneud gan fod angen eu mesur mewn ffordd benodol.
10. Mae disgwyl i unigolion gyrraedd nod penodol er mwyn bod yn "ddigon anghenus" i symud ymlaen i'r cam nesaf.

Arweiniodd hyn at ddychmygu sut fyddai gwasanaeth perffaith i'r defnyddiwr yn edrych, yna datblygwyd **pwrpas, egwyddorion gweithredol a chamau gwerthoedd**:

**Pwrpas:** **"Fy helpu i fyw fy mywyd fel 'dwi isio"**

**Egwyddorion gweithredol**:

1. Rhoi'r hyn sydd yn cyfri i'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn.
2. Trafod gyda'r unigolyn am eu cefndir a'r cryfderau yr hoffan nhw adeiladu arnynt a'u cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus.
3. Gwneud penderfyniadau gyda'r unigolyn ar yr amser cywir ac yn y man cywir.
4. Ymyraethau wedi'i selio ar yr hyn sy'n cyfri i'r unigolyn drwy weithio mewn partneriaeth gyda'u cysylltiadau personol.
5. Cadw perchnogaeth gan dynnu arbenigedd i mewn lle bo'r angen.
6. Canolbwyntio gwybodaeth i'r hyn sydd yn cyfri i'r unigolyn ac sydd ar gael yn hawdd i bawb sydd ei angen.
7. Mae ein mesuryddion yn gyrru ein dysgu a'n ffordd o weithio.
8. Ein bod yn gweithio fel un tîm.
9. Arweinwyr yn gweithredu i ddiddymu rhwystrau gan alluogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol.

**Camau Gwerthoedd**

1. Beth sydd yn bwysig i'r dinesydd
2. Helpu'r dinesydd i geisio datrys materion ac i drafod dewisiadau
3. Helpu'r dinesydd i weithredu dewisiadau yn unol a 'beth sy'n bwysig'
4. Adolygu effeithiolrwydd canlyniadau o 'beth sy'n bwysig'

## 3. Cyfnod peilot

Ar ôl y 6 diwrnod cychwynnol rhoddwyd tîm integredig o staff iechyd a gofal gyda'i gilydd i brofi'r egwyddorion ar lefel ymarferol. Cafodd y cyfnod peilot ei gynnal am gyfnod o 12 wythnos o Ionawr 2015, gyda'r staff canlynol:

- 2 x Gweithwyr Cymdeithasol
- 1 x Therapydd Galwedigaethol (CG)
- 1 x Therapydd Galwedigaethol (PBC) (dim rhagor ar y tîm craidd ers mis Mehefin 2015)
- 1 x Nyrs Ardal
- 1 x Swyddog Galluogi

**Mae'r tîm uchod yn parhau i weithio fel tîm craidd** i fentora a pharhau i brofi ffyrdd newydd o weithio, herio ffurflenni, adnabod rhwystrau a'i diddymu i sicrhau fod y tîm yn gallu cadw at yr egwyddorion a'r pwrpas newydd. Nid yw'r tîm craidd yn cymryd achosion.

## 4. Sefydlu Tîm Gweithredol

Wedi'r cyfnod peilot roedd cyfnod cyflwyno ar gyfer rhagor o aelodau staff amlddisgyblaethol, sef y **Tîm Gweithredol**. Bydd y tîm hwn yn parhau i dyfu nes bydd yr ardal i gyd (Eifionydd) yn rhan o'r ffordd newydd o weithio. Ar hyn o bryd, mae'r tîm gweithredol yn Eifionydd yn cynnwys:

- 2.6 x Gweithiwr Cymdeithasol
- 1 x Therapydd Galwedigaethol
- 1 x Swyddog Galluogi
- 1 x Swyddog Maes (trydydd sector)

Y tîm yma sydd yn delio gydag achosion.

## 5. Beth sydd wedi newid?

a. Gweithwyr rheng flaen sydd yn arwain y newid ar sail profiad achosion go iawn.
b. Mae un tîm o weithwyr iechyd, gofal cymdeithasol a trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd o ysbyty gymunedol.

c. Cynllun fydd yn y pen draw yn arwain at lai o waith papur gan ryddhau mwy o amser i'w dreulio gyda'r unigolyn (80% efo'r dinesydd a 20% ar waith papur).
d. Un person yn dal holl elfennau o hanes yr unigolyn ac yn tynnu'r arbenigedd perthnasol i mewn ar yr adeg iawn.
e. Mesurau i'n galluogi ni i ddeall a gwella ein prosesau.
f. Datblygu sgiliau i helpu pobl i helpu eu hunain gan leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus.
g. Sicrhau fod gwellhad yn nhaith yr unigolion.
h. Y tîm i herio gweithdrefnau sydd ddim yn ychwanegu gwerth i'r hyn maent yn ei wneud.
i. Adnabod rhwystrau yn y system a cheisio eu gwaredu.
j. Arweinwyr i weithio a chael gwared â rhwystrau.

## 6. Llwyddiannau'r tîm Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal

a. Cytundeb gydag Adran Awdioleg eu bod am dderbyn cyfeiriadau drwy e-bost a'r ffurflen 'Beth sy'n bwysig', yn lle cyfeiriad drwy Feddyg Teulu.
b. Trigolion Eifionydd sydd yn derbyn cymorth clyw ar hyn o bryd a gyda phryderon yn gallu hunan gyfeirio at yr adran yn Ysbyty Gwynedd.
c. Y tîm yn cael benthyg cymorth clyw ar gyfer asesiad.
d. Mae Nyrsys Ardal rŵan yn gallu cysylltu gyda Meddyg Teulu 'allan o oriau' drwy rif uniongyrchol yn hytrach na dilyn system 'triage' fel mae'r cyhoedd yn ei ddefnyddio.
e. Mae blwch e-bost ceisiadau Gofal Iechyd Parhaus (CHC) wedi ei drefnu ar ôl cais gan y tîm.
f. Mae cytundeb mewn lle fod trefniadau casgliadau gwastraff ac ailgylchu yn cael eu cwblhau drwy e-bost. Mae hon yn drefn arbennig ar gyfer y tîm, nid oes angen cwblhau ffurflen bellach.
g. Cyd-storfa leol offer ar gael.
h. Hawliau rhagnodi - prescriber's rights - ar gyfer holl weithwyr iechyd a gofal yn ardal Eifionydd ar gyfer offer megis gwlâu proffilio. Bydd yr achos yn cael ei drafod mewn awyrgylch dan reolaeth (sgwrs aml ddisgyblaethol) er mwyn sicrhau fod pob datrysiad arall wedi ei gyflawni cyn archebu offer.
i. Uned Incwm a Lles – bodlon derbyn cyfeiriadau uniongyrchol drwy e-bost, yn hytrach na chwblhau ffurflen.
j. Y tîm yn gallu cyfeirio'n uniongyrchol i'r Adran Orthoteg yn hytrach na drwy'r Meddyg Teulu
k. Mynediad i gludiant Ambiwlans ar fynediad gofal canolraddol i gartref gofal nyrsio – rhif uniongyrchol i'r adran gludiant ambiwlans.
l. Grant anabledd (DFG) – Therapyddion Galwedigaethol Iechyd yn cael cyfeirio yn uniongyrchol a chymryd cyfrifoldeb yn dilyn trafodaeth aml ddisgyblaethol.
m. Addasiadau Cartrefi Cymunedol Gwynedd - trafod ceisiadau gyda swyddogion Cartrefi Cymunedol Gwynedd gan osgoi mynd a'r cais drwy banel.

## 7. Rhwystrau sydd yn derbyn sylw

a. Gofal Iechyd Parhaus (CHC) – llenwi ffurflen dros 100 o dudalennau ac yn broses hir. Bydd y weithdrefn yn cael ei fapio i ddeall pam fod yr holl ddogfennaeth angen ei gwblhau.
b. Gweithdrefn Teleofal yn cael ei fapio gan edrych ar ffurf syml ac effeithiol o allu darparu'r gwasanaeth heb orfod cwblhau cymaint o ffurflenni. Hefyd yn edrych ar geisio lleihau'r amser mae'n cymryd o'r pwynt cyswllt i'r pwynt derbyn offer.
c. Taliadau Uniongyrchol – gwaith yn cael ei wneud i addasu'r canllawiau.
d. Anghysondebau mewn unedau tymor byr - rhai unedau yn mynnu mynd allan i asesu unigolion pan mae asesiad wedi ei wneud gan staff proffesiynol yn y maes iechyd neu ofal cymdeithasol cyn eu derbyn. Mae hyn yn golygu dyblygu ac oediad yn derbyn yr unigolyn.
e. Gwaith mapio prosesau gyda'r tîm Incwm a Lles yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.
f. Gwaith yn cael ei wneud i herio mesuriadau corfforaethol a chenedlaethol.
g. Asesiad 'Best Interest' / Asesiad Gallu Meddyliol yn cael eu trafod gan fod dwy ffurflen wahanol gan Iechyd a'r Cyngor ar hyn o bryd, ac mae modd uno'r ffurflenni
h. Bathodyn glas – yn bresennol mae angen llythyr gan Feddyg Teulu ond yn edrych i symleiddio broses hon.
i. Ffurflen cyfeirio gwasanaeth adfocatiaeth – edrych i symleiddio'r broses.
j. Oedi mewn addasiadau i dai Cymdeithasau Tai – yn edrych sut i fod yn fwy effeithiol.
k. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC) – Trafferthion lleoli oedolion o dan 55 mlwydd oed mewn unedau tymor byr heb orfod cael 'amrywiad ar gofrestriad y cartref', gall hyn gymryd o leiaf 5 wythnos i'w rhoi mewn lle ac nid yw'n ystyried anghenion yr unigolyn yn llawn.

## 8. Camau nesaf

a. Bydd tîm o nyrsys ardal yn ymuno gyda'r Tîm Gweithredol yn yr wythnosau nesaf.
b. Symud i swyddfa barhaol yn Alltwen.
c. Cyflwyno'r ffordd newydd o weithio i'r ward yn Alltwen.
d. Cynnal gweithdai i dimau ardal Oedolion.
e. Sesiynau gydag Arweinwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ei drefnu yn fuan ym mis Rhagfyr.
f. Cyflwyno'r ffordd newydd o weithio i dimau lleol amlddisgyblaethol yn ddelfrydol yn gweithio mewn ysbytai cymunedol neu feddygfeydd.
g. Cynllunio ar gyfer ardaloedd eraill gan adnabod lleoliadau a llunio amserlenni.
h. Parhau i adnabod rhwystrau a'u gwaredu er mwyn galluogi gwasanaeth mwy effeithiol ac amserol i drigolion Gwynedd.
i. Adeiladu ar gryfderau unigolion a chymunedau.

## 9. Cwestiwn ac ateb

- **Beth ydy natur yr achosion mae'r tîm yn delio gyda?**
  - Mae'r tîm yn delio gyda holl achosion sydd yn dod mewn yn uniongyrchol atynt drwy dîm cynghori ac asesu, y ward yn Alltwen, Meddyg Teulu ayb. Nid yw'r tîm yn gwahanu achosion i dymor byr a hir ac nid ydynt yn delio gydag achosion iechyd meddwl nag anabledd dysgu (gall Therapydd Galwedigaethol y tîm gael ei thynnu mewn i achosion anabledd dysgu weithiau gan does Therapydd Galwedigaethol o fewn tîm Anabledd Dysgu ar hyn o bryd).

- **Sut mae'r tîm yn derbyn cyfeiriadau?**
  - Yn uniongyrchol ar ffon, e-bost neu ffacs.
  - Drwy Dîm Cynghori ac Asesu, y Ward yn Alltwen, Meddyg Teulu ac ysbytai eraill.
  - Nid yw'r ffordd o dderbyn cyfeiriadau wedi newid ar hyn o bryd.

- **Beth yw'r gwaith papur a ddefnyddir?**
  - Yr unig ffurflen sydd yn cael ei ddefnyddio yw'r **ffurflen 'Beth sy'n bwysig?' gweler ATODIAD 1**. Mae hwn yn cyfuno'r ffurflen asesu a chynllun gofal ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adolygiadau hefyd.
  - Mae'r tîm yn ceisio gwaredu ffurflenni cyfeirio at wasanaethau eraill er mwyn osgoi dyblygu drwy ddefnyddio'r ffurflen 'Beth sy'n bwysig' fel ffurf gwybodaeth e.e. ar gyfer gyfeiriad i gartref preswyl, neu fel cyfeiriad am becyn gofal cartref. Mae'r ffurflen 'Beth sy'n bwysig' yn nodi'r holl wybodaeth berthnasol i hysbysu asiantaethau.

- **Beth yw'r rhwystrau a sut mae'r tîm wedi goresgyn y rhain?**
  - Gweler pwynt 7 a 8.

- **Yn syml, beth ydy'r ffordd o weithio?**
  - Cyd-leoli a gweithio'n integredig gyda Iechyd, Gofal a'r Trydydd Sector.
  - Perchnogaeth o'r achos o ddechrau i ddiwedd siwrne'r dinesydd. Nid yw achosion yn cael eu pasio ymlaen i weithwyr eraill ond bydd gweithwyr eraill yn cael eu tynnu mewn pan fo angen.
  - Llai o waith papur – yn ddelfrydol bydd 80% o'r amser yn cael ei dreulio gyda'r dinesydd a 20% ar waith papur.
  - Mwy o bwyslais ar beth sy'n bwysig i'r dinesydd, gan geisio symud o'r meddylfryd mai gwasanaeth statudol yw'r datrysiad bob tro.
  - Gweithio'n agosach efo'r dinesydd ar drothwy cyfnod/neu yn ystod cyfnod galluogi.
  - Cyfarfodydd amlddisgyblaethol i drafod achosion, gan osgoi gorfod rhoi cais i banel cyn i unrhyw wasanaeth gael ei gomisiynu neu archebu offer.

- **Beth ydy Un Pwynt Mynediad Gwynedd (SPoA)?**

  Mae Un Pwynt Mynediad (SPoA) yn brosiect rhanbarthol sy'n sicrhau un dull hwylus o gael mynediad at wasanaethau integredig gofal ac iechyd i oedolion. Ar gyfer Gwynedd, Tîm Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal ydy'r SPoA, mae hyn ar gyfer ardal Eifionydd yn unig ar hyn o bryd ond gyda'r nod o'i weithredu ar draws Gwynedd yn y pendraw.

- **Beth ydy'r amserlen ar gyfer yr ardaloedd eraill?**
  - Yn y tymor byr, y flaenoriaeth fydd sefydlogi'r gwaith yn Alltwen yn cynnwys ehangu'r ffordd o weithio i nyrsys ardal Eifionydd ac i waith y ward o fewn yr ysbyty. Unwaith y byddwn yn fodlon bod hynny wedi digwydd, mae bwriad ehangu i ardaloedd eraill. Er mai gweddill Dwyfor oedd yr ardal a oedd mewn golwg yn wreiddiol, mae materion capasiti ardal Meirionnydd a'r sefyllfa anodd o ran darparu gofal cartref yno yn debygol iawn o olygu mai i ogledd Meirionnydd y byddwn yn symud yn gyntaf gyda de'r Sir i ddilyn wedi hynny. Mae gwaith dechreuol eisoes ar y gweill i baratoi gweithwyr ar gyfer y newid hwn. Y tu hwnt i hynny, nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto ar drefn y rhaglen ar gyfer yr ardaloedd ond mae'r meddylfryd presennol yn ein llywio at symud i weddill Dwyfor yn gyntaf, yna ardal Caernarfon gan orffen gydag ardal Bangor ac Ysbyty Gwynedd. Bydd gan y Bwrdd Iechyd, fel ein partneriaid yn y gwaith hwn, gryn ddylanwad ar y rhaglen a bydd hynny yn destun trafod â nhw dros y misoedd nesaf.

## 10. Gwybodaeth Bellach

Mae'r gweithdai canlynol wedi eu trefnu ar gyfer timau ardal oedolion:

- **Tîm Ardal Dwyfor: 09:30am, 21/10/15, Frondeg, Pwllheli**
- **Tîm Ardal Meirionnydd: 13:00pm, 18/11/15, Yst 2 Penarlâg, Dolgellau**
- **Tîm Ardal Arfon: 09:30am, 4/11/15, lleoliad i'w gadarnhau, Caernarfon**

**Gallwch gofrestru ar gyfer yr uchod drwy'r Uned Datblygu Gweithlu.**

Bydd y tîm hefyd yn cynnal sesiynau agored i staff Iechyd a'r Cyngor (cysylltwch i wybod pryd mae'r rhain yn cael cynnal). Os ydych hoffech i rai o aelodau'r tîm roi cyflwyniad i'ch tîm ar wahân plîs cysylltwch ar 01766 510072 neu cysylltwch efo Teleri Toohill ar Telerisamueltoohill@gwynedd.gov.uk i drefnu.

## ATODIAD 1 – Ffurflen 'Beth sy'n Bwysig'

# *"BETH SY'N BWYSIG I MI…"*
# *"WHAT'S IMPORTANT TO ME…"*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad Cychwyn Y Ddogfen/ *Document Start Date :-* | | | |
| Enw a Swydd Cyd-lynyddd Gofal / Name and Designation of Care Co-ordinator | | | |
| Enw(au) Cyntaf y Dinesydd: *Citizen's First Name(s):* | | Cyfenw'r Dinesydd: *Citizen's Surname:* | |
| Rhif *NHS No* | | | |
| Rhif RAISE *No* | | Rhif D *No* | |
| Rhif Ffôn Cartref / *Home Tel No:* | | Rhif Ffôn Symudol/ *Mobile No:* | |
| Cyfeiriad Cartref: *Home Address:* | | | |
| Perchnogaeth / *Tenure* | | | |
| Dyddiad Geni: *Date of Birth:* | | | |

**Person Arwyddocaol / Perthynas Agosaf – *Next of Kin***

| | |
|---|---|
| Pŵer atwrnai/Power of Attorney | |

**Gwybodaeth Meddyg Teulu / *GP Details***

| | |
|---|---|
| Enw'r Meddyg Teulu: / *GP Name:* | |
| Cyfeiriad y Meddyg Teulu: *GP Address:* | |
| Rhif ffôn y meddyg: *GP Tel No:* | |

**Caniatad / Capasiti / Rhannu Gwybodaeth – Consent / Capacity / Share Information**

**Dewis Iaith. Llafar ac Ysgrifennedig – Language of choice verbal and written**

**Risgiau / Risks**

**BETH SYDD YN BWYSIG I CHWI . SUT MAE BYWYD DA YN EDRYCH FEL I CHWI?**
**WHAT MATTERS TO YOU / WHAT DOES A GOOD LIFE LOOK LIKE TO YOU ?**

**1. CEFNDIR/HANES – BACKGROUND/HISTORY**

**2. IECHYD CORFFOROL/MEDDYLIOL PERTHNASOL – *RELEVANT PHYSICAL /MENTAL HEALTH***

**3. BETH MAE TEULU, FFRINDIAU / Y GYMUNED YN GALLU EI WNEUD? – *WHAT CAN FAMILY, FRIENDS/THE COMMUNITY DO?* CYSYLLTIADAU CYMDEITHASOL - *SOCIAL CONTACTS***

**4. SGILIAU A CHRYFDERAU (BETH YDYCH WEDI GWNEUD/YN GALLU EI WNEUD I HELPU EICH HUN I GYFLAWNI YR HYN SYDD YN BWYSIG I CHWI?) – *SKILLS AND STRENGTHS (WHAT HAVE YOU DONE OR CAN DO TO HELP YOURSELF ACHIEVE WHAT MATTERS TO YOU?)***

**5. OFNAU A PHRYDERON/*FEARS AND CONCERNS:***

## 6. SYLWADAU CYFFREDINOL / *GENERAL COMMENTS*

## ALLBYNNAU BERSONNOL A GANFYDDWYD (BETH SY'N BWYSIG) A'R WEITHRED A GYTUNWYD:
## *PERSONAL OUTCOMES IDENTIFIED (WHAT MATTERS) AND AGREED ACTIONS*

| Beth yw'r amcan benodol.<br>What is the individual Outcome ? | Gweithred a'r Camau a gytunwyd i gwrdd a'r Amcan benodol / Agreed actions for meeting The individual outcome | Pwy sy'n gyfrifol, sut a phryd? Unrhyw rwystrau i gyflawni yr allbynnau a'r risg sy'n gysylltiedig / Who will be responsible, how and when? Any barriers to achieving these outcomes and related risks. |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Adolygiad : / Date of Review:** | |

| | |
|---|---|
| **AWDUR / AUTHOR** | |
| **DYDDIAD / DATE** | |

**GWYBODAETH DIWEDDARAF SY'N BERTHNASOL I BETH SY'N BWYSIG / LATEST UPDATE THAT IS RELEVANT TO WHAT MATTERS**

| Rhowch dic yn y blwch os mai adolygiad yw hwn/ ***Please tick if this is a Review*** | | |
|---|---|---|

| | |
|---|---|
| | |
| **AWDUR / AUTHOR ( Yr Adolygiad/Review)** | |
| **DYDDIAD / DATE (Yr Adolygiad/Review)** | |
| **DYDDIAD CAU'R DDOGFEN / DOCUMENT END DATE** | |